Tystysgrif mewn Sgiliau Iaith Gymraeg[1]

Rhagarweiniad

Mae dwy ran i'r cymhwyster hwn:

1. Cyflwyniad Llafar
2. Prawf Ysgrifennu

Mae'r cyflwyniadau llafar yn digwydd fel arfer yn ystod tymor y gwanwyn yn y flwyddyn lle bydd yr ymgeiswyr yn ceisio am y cymhwyster. Cynhaliwyd y Prawf Ysgrifennu eleni ar 10 Mai 2017. Prawf ar-lein yw'r Prawf Ysgrifennu. Ceir gwybodaeth lawn am y cymhwyster a sut y gweithredir yr asesu yn y fanyleb, (gw. gwefan CBAC).

Mae'r cymhwyster hwn wedi ei ddynodi gan Gymwysterau Cymru ar lefel 6. Am y tro cyntaf yn 2017, fe'i cynigir trwy bartneriaeth rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a CBAC.

Canolfannau

Dyma'r canolfannau arholi lle y cynhaliwyd y cymhwyster yn 2017, a nifer yr ymgeiswyr sy'n astudio dan y sefydliad hwnnw:

	2015	**2016**	**2017**
Prifysgol Abertawe	16	17	33
Prifysgol Aberystwyth	74	35	35
Prifysgol Caerdydd	39	48	25
Prifysgol Bangor	58	58	45
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	31	24	35
Prifysgol De Cymru	15	15	15
Prifysgol Y Drindod Dewi Sant	60	34	79
Arall	3	8	-

Cyfanswm Cofrestriad 2015 = 296
Cyfanswm Cofrestriad 2016 = 239
Cyfanswm Cofrestriad 2017 = 267

Mae nifer yr ymgeiswyr yn weddol gyson â'r blynyddoedd blaenorol. Gwelir peth newid o flwyddyn i flwyddyn rhwng y gwahanol sefydliadau: roedd mwy o ymgeiswyr o Brifysgol Abertawe ac o Brifysgol Y Drindod Dewi Sant eleni, a llai o Brifysgol Caerdydd.

[1] Cyfeirir at y cymhwyster fel 'Tystysgrif Sgiliau Iaith' neu TSI er hwylustod.

Proffil yr ymgeiswyr

	Proffil Rhyw	
	Gwryw	Benyw
2017	26.8%	73.2%

	Proffil oedran (oedran ar Awst 31) – canran yr ymgeiswyr						
	Dan 18	18	19	20	21	22-25	Dros 25
2017	0	0.8	17.7	30.1	27.8	11.7	12.0

Bydd modd cymharu proffil yr ymgeiswyr dros gyfnod o flynyddoedd yn y dyfodol.

Cyflwyniad Llafar

Cafodd pob cyflwyniad llafar ei asesu gan asesydd mewnol (Tiwtor Iaith yr ymgeisydd, fel rheol), ac asesydd allanol. Lle roedd gwahaniaeth sylweddol ym marciau'r ddau asesydd, roedd y Prif Arholwr yn asesu am y trydydd tro, a'i farc yntau oedd yn sefyll yn yr achosion hynny. Roedd cyflwyniad llafar pob ymgeisydd yn cael ei ffilmio, a'r fideos yn cael eu hanfon i CBAC gyda thaflenni marcio'r aseswyr mewnol ac allanol.

Sylwadau'r Prif Arholwr

Ym mis Hydref 2016, cynhaliwyd diwrnod hyfforddi/safoni yng Nghaerdydd i Diwtoriaid Iaith y Dystysgrif a'r aseswyr allanol. Cafwyd cyfle i wylio fideos, marcio cyflwyniadau llafar ymgeiswyr a oedd wedi sefyll y prawf yn y gorffennol, a'u trafod. Bu hwn yn ymarferiad buddiol cyn i'r arholwyr gychwyn ar eu gwaith asesu. Roedd dau brif wahaniaeth o safbwynt y Prawf Llafar eleni: (a) roedd arholwr allanol *a'r* tiwtor yn bresennol ac yn dyfarnu marciau yn annibynnol ar ei gilydd; (b) mabwysiadwyd dull analytig o farcio, yn seiliedig ar y chwe maen prawf, yn hytrach na'r dull holistig blaenorol.

At bwrpas cymedroli'r marciau llafar, mae'n ofynnol recordio'r ymgeiswyr ar fideo, a hoffwn dynnu sylw at rai materion ymarferol. Dylid sicrhau bod y camera'n wynebu'r ymgeiswyr, fel y bo'n bosib gweld eu hwynebau a'r deunydd gweledol ar y sgrin. Mae'n bwysig hefyd fod y meicroffon wedi'i osod rhwng yr ymgeiswyr a'r arholwyr ac yn codi lleisiau pawb yn glir. Awgrymaf fod swyddogion arholiadau a thiwtoriaid yn sicrhau bod yr agweddau hyn yn dderbyniol cyn cychwyn recordio. At ei gilydd, roedd y safon yn uchel eleni a llwyddodd cyfran helaeth o'r ymgeiswyr i gyrraedd safonau Clod a Rhagoriaeth, a nifer yn llwyddo i gyrraedd dros 90 marc allan o 100 (gweler y graff ar ddiwedd yr adroddiad). Ar ben arall yr ystod, cafodd 6 ymgeisydd lai na 50 o farciau, sef y marc Llwyddo.

Dyfarnwyd y marciau ar sail y meini prawf canlynol:

1. Dull cyflwyno (20 marc)
2. Ystod cystrawennau a geirfa (20 marc)
3. Cynnwys a threfn y cyflwyniad (20 marc)
4. Ymateb i gwestiynau (20 marc)
5. Cywirdeb (10 marc)
6. Deunydd gweledol (10 marc)

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi paratoi yn lled drylwyr ac yn amlwg yn gyfarwydd â'r deunydd a gyflwynwyd. Trafodwyd rhychwant eang o bynciau a'r rheiny'n amrywio o chwaraeon ac amaeth i bynciau gwyddonol a meddygol. Mae hyn yn dystiolaeth galonogol ynghylch y modiwlau/pynciau niferus sy'n cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru bellach. *Y prif wendid o safbwynt cyflwyno'r deunydd oedd bod ymgeiswyr yn gaeth i'w nodiadau.*

Byddai'n fuddiol i'r ymgeiswyr gofio hefyd mai at gynulleidfa amrywiol yr anelir y cyflwyniadau hyn. Ar y naill law, dewisodd rhai ymgeiswyr bynciau rhy arwynebol ar gyfer y gynulleidfa darged, ac o ganlyniad nid oedd modd ehangu'r drafodaeth yn ystod ail ran y prawf. Ar y llaw arall, dewisodd rhai ohonynt bynciau a oedd yn rhy arbenigol, heb gynnig digon o eglurhad ynghylch terminoleg neu gysyniadau anodd. Felly, mae'n bwysig fod ymgeiswyr yn cadw eu cynulleidfa mewn cof wrth ddewis pynciau, yn ogystal â'r dull o gyflwyno'u dewis bynciau.

Yn gyffredinol, dangosodd ymgeiswyr wybodaeth drylwyr o'u pynciau wrth ateb cwestiynau yn ystod ail hanner y cyflwyniad, gan lwyddo, yn aml, i ehangu ar y deunydd a gyflwynwyd yn ystod y rhan gyntaf. Gan ei bod yn bosibl paratoi'r deunydd gweledol ymlaen llaw, mae'n hanfodol eu bod yn sicrhau cywirdeb y gwaith ysgrifenedig ar y sleidiau. Gall deunydd gweledol gwallus danseilio cyflwyniad da. Ceir tuedd hefyd i orlwytho'r sleidiau â nodiadau. Byddai cynnwys pwyntiau bwled cryno yn llawer mwy effeithiol o safbwynt hoelio sylw cynulleidfa a chynorthwyo'r cyflwynydd i siarad o'r frest.

Argymhellion

Yn ystod fy nghyfnod fel Arholwr y Dystysgrif, nodais fy marn ynghylch un mater penodol wrth adrodd yn ôl i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a hoffwn ailadrodd y mater hwnnw yn yr adroddiad hwn. Gan mai rhoi gwybodaeth i ddarpar gyflogwyr ynghylch safon iaith lafar ac ysgrifenedig myfyrwyr yw prif bwrpas y Dystysgrif, rwyf o'r farn y dylid ymdrin â'r elfennau hyn ar wahân wrth ddyfarnu'r Dystysgrif, fel na bo myfyrwyr yn methu'r Dystysgrif *gyfan* os ydynt yn methu naill ai'r elfen lafar neu'r elfen ysgrifenedig. Felly, er enghraifft, os yw myfyriwr yn methu'r elfen ysgrifenedig ac yn llwyddo yn yr elfen lafar, dylai'r Dystysgrif y mae'n ei derbyn nodi hynny. Mae gwir angen deiliaid swyddi sy'n medru cyfathrebu ar lafar mewn swyddi ledled Cymru ac mae'n bwysig bod cyflogwyr yn derbyn gwybodaeth gyflawn a manwl am ymgeiswyr ar gyfer swyddi.

Dyma'r ystadegau ar gyfer y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu'r cyflwyniadau:

Maen prawf	**Cymedr**	**Mwyafswm**
Dull cyflwyno	14.6	20
Ystod cystrawennau a geirfa	15.0	20
Cynnwys a threfn y cyflwyniad	15.4	20
Ymateb i gwestiynau	15.0	20
Cywirdeb	6.9	10
Deunydd gweledol	6.9	10
Cyfanswm:	**73.8**	**100**

Gwelir bod y cymedrau'n eithaf cyson ar draws y meini prawf. Roedd y ffigurau ar gyfer cywirdeb a'r deunydd gweledol ychydig yn is, ond roedd y pwysoli'n golygu bod hyn cael llai o effaith ar farciau'r ymgeiswyr.

Prawf Ysgrifennu

Roedd hi'n galonogol iawn gweld cymaint o'r ymgeiswyr yn ysgrifennu Cymraeg graenus gan ddefnyddio geirfa dda ac eang. Yn gyffredinol, wrth ateb Rhan 3 (Ysgrifennu Rhydd) yr oeddynt yn rhagori, a'r hyn sy'n aros yn y cof yw sêl yr ymgeiswyr dros Gymreictod, pwysigrwydd addysg Gymraeg a'r gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhan 1 – Darn i'w Gywiro

Dyma'r cynllun marcio penodol a ddefnyddiwyd gan y marciwr yn 2017. Lle roedd ymgeiswyr wedi dod o hyd i ffordd amgen o gywiro'r testun (gan gadw'r ystyr), roeddynt yn derbyn y marc llawn. Roedd y gwallau y gellid eu hadnabod drwy ddefnyddio Cysill/Cysgliad yn derbyn 1 marc, felly mae cyfanswm o 22 gwall yn y testun. Amlygir y gwallau 1 marc mewn lliw llwyd isod.

TY.	Gwall	Marc	Allan o
TY.1	i'r Coleg = i Goleg		2
TY.2	Goleg y Cwm Cwm Cynon = Goleg Cwm Cynon		2
TY.3	campws = gampws		2
TY.4	yn pob = ym mhob/ymhob		2
TY.5	Yn gystal = Yn ogystal		2
TY.6	o cyfle = o gyfle		1
TY.7	i chi'n astudio = rydych/dych chi'n astudio		2
TY.8	astudio yn = astudio ynddo		2
TY.9	ambell clwb = ambell glwb		1
TY.10	cyfle i chi cymdeithasu = cyfle i chi gymdeithasu		2
TY.11	myfyrwyr arall = myfyrwyr eraill		2
TY.12	a'r cyhoeddus = a'r cyhoedd		2
TY.13	myfyriwr brwd = fyfyriwr brwd		2
TY.14	amdanat ti = i ti		2
TY.15	mai'n syniad = mae'n syniad		2
TY.16	ffufrio = ffurfio		1
TY.17	un fyfyriwr = un myfyriwr		1
TY.18	e-bost = e-bostio		2
TY.19	Defnyddiodd cyfryngau = Defnyddiodd gyfryngau		2
TY.20	i ddod i hyd i = i ddod o hyd i		2
TY.21	ohono = ohonynt/ohonyn nhw		2
TY.22	cyfarfod yn wythnos = cyfarfod yn wythnosol/cyfarfod bob wythnos		2
	Cyfanswm:		40

Dyma rai o sylwadau'r arholwr:

Dyma lle y cafodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y marciau isaf. Rhestrir yr eitemau i'w cywiro a oedd yn peri anhawster.

TY.2 – Roedd nifer fawr o'r ymgeiswyr yn cael anhawster hefo 'Coleg Cwm Cynon'. Cafwyd 'Croeso i Goleg yng Nhgwm Cynon'/ 'i Goleg Cynon y Cwm'/ 'y Cŵm Cynon'.
TY.5 – 'yn ogystal'- ysgrifennodd sawl un - 'yn o gystal'.
TY.7 ac 8 – 'rydych / dych chi'n astudio' / 'astudio yn' – nifer fawr heb gywiro o gwbl.
TY.9 – 'ambell glwb' - rhai ymgeiswyr yn ei newid i 'ambell glŵb'.
TY.11 – 'myfyrwyr eraill' – nifer yn rhoi 'myfyriwr arall'.
TY.12 – 'a'r cyhoedd' – yn aml cafwyd 'yn gyhoeddus' – 'myfyrwyr eraill yn gyhoeddus'.
TY.13– 'fyfyriwr brwd' ychydig iawn gafodd hwn yn gywir. Fel arfer cafodd ei gywiro yn 'myfyrwyr' neu 'brwd' / 'brwdfrydig'.
TY.14 – 'i ti' – nifer heb weld y camgymeriad. Rhai wedi ysgrifennu 'i chi', sy'n ddealladwy o ystyried y 'chi' yn y paragraff cyntaf a allai fod yn cyfeirio at fyfyriwr unigol.

TY.18 – ‘e-bostio’ – roedd nifer yn cael anhawster ac yn newid yr ystyr i ‘yn holi mewn ebost’ / ‘trwy e-bost’, bu’n holi e-bost’, ‘bu’n holi syniad mewn e-bost’.
TY.20 – ‘i ddod o hyd i’ – nifer heb sylwi ar y camgymeriad. Rhai wedi’i newid i ‘darganfod’.
TY.21 – ‘ohonynt / ohonyn nhw’ – yn cael ei newid yn aml i ‘ohonom ni’.
TY.22 – ‘cyfarfod yn wythnosol’ / cyfarfod bob wythnos’ – ‘cyfarfod yn yr wythnos’.

Dyma enghreifftiau o atebion gwahanol i’r rhai sydd yn y cynllun marcio, ond a dderbyniwyd fel rhai cywir:
TY.6 – ‘o gyfleoedd’.
TY.8 – ‘y campws yr ydych yn astudio arno’, ‘y campws lle rydych yn astudio’ / ‘…lle rydych chi’n astudio’.
TY.18 – ‘yn anfon e-byst’.

Roedd y dadansoddiad fesul eitem yn cadarnhau’r sylwadau.

Eitem	Cymedr	Ffactor Hygyrchedd	Mwyafswm
1.	1.32	0.66	2
2.	0.45	0.23	2
3.	0.76	0.38	2
4.	1.51	0.76	2
5.	1.48	0.74	2
6.	0.92	0.92	1
7.	1.14	0.57	2
8.	0.77	0.38	2
9.	0.80	0.81	1
10.	1.31	0.65	2
11.	0.94	0.47	2
12.	1.32	0.66	2
13.	0.38	0.19	2
14.	0.89	0.44	2
15.	1.63	0.82	2
16.	0.89	0.87	1
17.	0.85	0.85	1
18.	0.54	0.27	2
19.	0.59	0.29	2
20.	1.53	0.76	2
21.	1.36	0.68	2
22.	1.44	0.72	2
Rhan 1:	11.63	0.58	40*

*Hanerir y cyfanswm a’i dalgrynnu.

Mae hi’n amlwg o’r data fesul eitem fod yr eitemau y gellir eu cywiro trwy ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol yn haws o lawer i’r ymgeiswyr. Mae ffactor hygyrchedd pob un o’r 4 eitem yn uwch na 0.80 (h.y. mae dros 80% o’r ymgeiswyr wedi eu cael yn gywir). Mae myfyrwyr yn gyfarwydd â defnyddio Cysill, ac efallai fod y gwahaniaeth rhwng y rhain a’r eitemau eraill yn dangos gorddibyniaeth ar wirydd sillafu.

Yr eitemau mwyaf heriol oedd 2,13,18 ac 19. Yr anoddaf oedd eitem 13, lle roedd disgwyl i ymgeiswyr dreiglo enw mewn cyfarchiad, h.y. ‘Fyfyriwr brwd!’ sef yr un treiglad ag a geir mewn ymadrodd fel ‘Bore da, blant!’

Rhan 2 – Trawsieithu

Dyma’r cynllun marcio:

Cynllun marcio Rhan 2 – Trawsieithu [allan o 40]

TY2.	Maen prawf	Marc	allan o
TY2.1	**Cywirdeb**		10
TY2.2	**Ystod**		10
TY2.3	**Addasrwydd y testun**		10
TY2.4	**Pwyntiau allweddol:**		
	i. Mae cynhadledd wedi bod i drefnu sut mae cydweithio/meithrin cysylltiadau rhwng Cymru a Phatagonia. [Sôn am *bwrpas* y gynhadledd]		2
	ii. Roedd y siaradwyr wedi sôn am hanes y Wladfa, yn cynnwys (a) yr arloeswyr; (b) y berthynas â'r boblogaeth gynhenid, (c) dulliau amaeth. [Dylid cyfeirio at o leiaf 2 o'r rhain]		2
	iii. Roedd y siaradwyr wedi sôn am faterion mwy cyfoes – sut roedd (a) datblygiadau technegol; (b) gwelliannau cyfathrebu a (c) theithio. [Dylid cyfeirio at o leiaf 2 o'r rhain]		2
	iv. Gwaith y tiwtoriaid Cymraeg a sut mae myfyrwyr yn dysgu Cymraeg trwy ddod i Gymru.		2
	v. Bod adroddiad i ddod, yn cynnwys argymhellion i'r dyfodol.		2
	Cyfanswm:		40

Dyma rai o sylwadau'r marciwr:

Ar wahân i ddau ymgeisydd, deallodd pawb beth oedd natur y dasg. Llwyddodd nifer o ymgeiswyr i gyflwyno'r prif bwyntiau mewn iaith goeth a oedd yn adlewyrchu naws y darn gwreiddiol. Dyma rai o'r gwendidau:

Pwyntiau allweddol

1. Ni soniodd rhai ymgeiswyr am Batagonia o gwbl. Cyfeiriodd nifer at Brifysgolion De Affrica yn lle De America, un ymgeisydd at Brifysgolion Seland Newydd a chyfeiriodd un arall at brifysgolion yr UD a Chymru. Cyfeiriwyd hefyd at brifysgol Gregynog a'r ffaith fod y gynhadledd 'yng Nghaerdydd'.

2. Nododd un neu ddau fod 'llawer iawn o bobl oedd yn bresennol yn rhai o'r unigolion cyntaf i symud i'r wlad'. Nododd ymgeisydd arall fod y rhai oedd yn cymryd rhan yn y gynhadledd 'yn perthyn i'r hen ffoaduriaid' a chafwyd sawl cyfeiriad at yr ymfudwyr fel ffoaduriaid. Soniwyd hefyd fod 'siartwyr' wedi ymuno â'r gynhadledd ac yn astudio'r ddwy wlad.

3. (a 4). Roedd nifer o ymgeiswyr yn cyfuno'r ddau bwynt yma, y goreuon yn crybwyll yr holl bwyntiau a'r gweddill yn cyfeirio at rai o'r pwyntiau yn unig. Soniodd un neu ddau fod 'athrawon yn aros yn y Wladfa i wella eu sgiliau iaith Gymraeg'.

5. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i sôn am adroddiad ac argymhellion neu awgrymiadau i'r dyfodol.

Cywirdeb ac Ystod

• Yn aml iawn, cafwyd 'cynhaliwyd cynhadledd ddiweddar' yn lle 'yn ddiweddar'.
• Roedd nifer fawr o ymgeiswyr ar goll yn llwyr wrth gyfeirio at y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ysgrifennwyd 'nawfed ganrif ar ddeg',' y nawfed ganrif', 'deunawfed ganrif', 'undeg ganrif ar ddeg','90fed ganrif', 'pedwaredd ganrif yn ôl', 'yn ystod y 19th century', 'y pumed ganrif ar bymtheg', y ddeunawfed ganrif ar bymtheg', 'pedwerydd ar bymtheg canrif', 'undeg nawfed ganrif'.
• Gwall cyffredin oedd defnyddio 'yn' yn lle 'mewn', e.e. 'yn cynhadledd' yn lle 'mewn cynhadledd'.
• Roedd nifer yn defnyddio'r ferf amhersonol lle nad oedd angen neu'n defnyddio amser anghywir y ferf amhersonol.

Geirfa

• Defnyddiwyd y gair ‘anfonogion’ yn aml am ‘delegates’ a hefyd ‘llys anfonogion’ a oedd braidd yn chwithig. Efallai fod yr ymgeiswyr wedi dod ar draws y gair yma yn Cysgair ond buasai ‘cynrychiolwyr’ wedi bod yn fwy naturiol ac addas yn y cyd-destun hwn.
• Cafwyd ‘gofannu cysylltiadau’ ambell waith am ‘forge links’ a chyfeiriwyd yn aml at ‘berthnasau’ (am ‘berthynas’ y ddwy wlad) ac am ‘dyrchafiad’ technoleg. Cyfeiriwyd hefyd at y ‘Patagonwyr’. Hoffais yr ymadrodd ‘bob un wan jac o’r siaradwyr…!’

Dyma’r ystadegau ar gyfer meini prawf Rhan 2:

Maen prawf	Cymedr	Mwyafswm
Cywirdeb	6.32	10
Ystod	6.07	10
Addasrwydd y testun	5.83	10
Pwyntiau allweddol	5.48	10
Cyfanswm:	**23.9**	**40**

Mae hi’n amlwg fod rhai ymgeiswyr yn colli marciau am fethu â chrynhoi’r pwyntiau allweddol neu am anwybyddu’r testun gwreiddiol, felly mae’r cymhedrau’n is yn y meini prawf hynny.

Rhan 3 – Ysgrifennu Rhydd:

Dyma’r meini prawf a’r gofynion yr oedd yn rhaid i’r ymgeiswyr eu hateb:

Cynllun marcio Rhan 3 – Ysgrifennu Rhydd [allan o 40]

TY3.	Maen prawf	Marc	allan o
TY3.1	**Cywirdeb**		10
TY3.2	**Ystod**		10
TY3.3	**Cynnwys a threfn**		10
TY3.4	**Ateb y gofynion:**		
	i. pam rydych chi eisiau mynd ar brofiad gwaith yno;		2
	ii. beth gallwch chi ei gynnig i’r gweithle;		2
	iii. y cyfnod yr hoffech ei dreulio yn y gweithle (nodwch ddau ddewis);		2
	iv.profiad perthnasol rydych wedi ei gael yn y gorffennol;		2
	v. eich gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.		2
	Cyfanswm:		40

Dyma rai o sylwadau’r marciwr:

Roedd yr atebion i Ran 3 yn dda iawn ar y cyfan a nifer fawr o’r atebion yn rhagorol, a hynny dros yr ystod pynciau yr oedd y myfyrwyr yn eu hastudio. Lluniodd llawer o ymgeiswyr lythyr ffurfiol llwyddiannus yn gwneud cais am brofiad gwaith.

Ateb y gofynion

Nodir yn y cwestiwn y dylid cynnwys nifer o bwyntiau ond roedd rhai ymgeiswyr yn colli marciau trwy beidio e.e. sôn am y cyfnod profiad gwaith gan nodi dau ddewis (iii).
Roedd yr ateb i’r gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg (v) weithiau yn arwynebol – disgwylir mwy na dim ond nodi’r ffaith eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl.

(i) Ni wnaeth rhai ymgeiswyr nodi ar ddechrau'r cais lle roedden nhw'n awyddus i fynd ar brofiad gwaith na natur y gweithle – roedd yn rhaid dyfalu wrth ddarllen y cais. Roedd y rhan fwyaf yn egluro'n dda pam roeddynt eisiau'r profiad gwaith.

(ii) a (iii) Nid oedd pawb yn nodi'r sgiliau roeddynt yn gallu eu cynnig i'r gweithle, dim ond yn nodi lle roeddynt wedi bod ar brofiad gwaith. Roedd y goreuon yn nodi'r sgiliau a oedd ganddynt yn barod a sut roeddynt wedi dysgu sgiliau newydd/cryfhau'r sgiliau trwy fynd ar brofiad gwaith.

Roedd hi'n rhyfeddol cymaint o brofiad gwaith roedd yr ymgeiswyr wedi'i gael dros y blynyddoedd, un ai mewn gweithleoedd fel rhan o'u cwrs, neu drwy weithio gartref neu gyda chwmnïau lleol.

Cywirdeb ac Ystod

Roedd yr ymgeiswyr yn ysgrifennu'n gywir ar y cyfan ac yn defnyddio ystod o gystrawennau. Cafwyd enghreifftiau o Gymraeg cyhyrog, ffurfiol a hefyd o Gymraeg naturiol gyda blas llafar. Roedd yr eirfa'n dda iawn a'r ymgeiswyr yn gallu defnyddio termau perthnasol i'w maes astudiaeth yn fedrus.

Cynnwys a threfn

Ar y cyfan roedd y cynnwys yn dda a'r cais wedi'i lunio'n drefnus.

Dyma'r ystadegau ar gyfer meini prawf Rhan 3:

Maen prawf	**Cymedr**	**Mwyafswm**
Cywirdeb	7.24	10
Ystod	7.44	10
Cynnwys a threfn	7.84	10
Ateb y gofynion	8.53	10
Cyfanswm:	**31.3**	**40**

Mae'n drawiadol fod y cymedrau ar gyfer Rhan 3 gymaint yn uwch nag ar gyfer Rhan 2. Mae'r Gymraeg yn gywirach a defnyddir ystod gyfoethocach o iaith pan fydd yr ymgeiswyr yn ysgrifennu o fewn eu profiad uniongyrchol.

Argymhellion yr arholwr:

Pwyntiau ymarferol wrth ateb y papur

Rhan 1: Dylid dangos y newidiadau'n glir mewn print trwm. Nid yw llythrennau wedi'u croesi allan na rhestr o'r newidiadau (a rheini heb fod yn y drefn gywir!) ar waelod y dudalen yn dderbyniol. Mae'n werth dileu'r darn gwreiddiol oddi ar y sgrin wedi i chi gwblhau'r cwestiwn.
Rhan 2 a 3: Mae angen nodi nifer y geiriau ar y diwedd.
Rhan 3: Dylid cadw o fewn nifer y geiriau a nodir. Peidiwch â gwastraffu geiriau yn 'pregethu' yn gyffredinol, e.e. am sefyllfa wleidyddol Cymru / amgylchiadau'r byd amaethyddol ar draul peidio ag ateb y pwyntiau gofynnol yn llawn. Does dim pwynt ychwaith gwastraffu geiriau yn dyfynnu yn y Saesneg.
Gofalwch eich bod yn defnyddio paragraffau wrth ysgrifennu.

Cywirdeb Iaith

Mae angen rhoi sylw i'r pwyntiau isod:

1. Ffurfiau'r amhersonol a phryd i'w defnyddio.
2. Sut i ysgrifennu'r canrifoedd a'r dyddiadau yn y Gymraeg.
3. Y gwahaniaeth rhwng 'dechrau' a 'cychwyn' – dechrau profiad gwaith / swydd newydd a chychwyn ar siwrnai.
4. Sicrhau wrth ysgrifennu'n rhydd eich bod yn treiglo enw eich prifysgol yn gywir, e.e. ym Mhrifysgol Bangor (nid 'yn Brifysgol Bangor'), 'ym Mhrifysgol Aberystwyth' (nid yn Prifysgol Aberystwyth).
5. Osgoi cyfieithu'n uniongyrchol neu ddibynnu'n ormodol ar Cysill/Cysgair. Cafwyd enghreifftiau amlwg lle roedd hyn wedi digwydd eleni, e.e. 'dwi'n person mynediad allan...' (outgoing?).

Roedd hi'n anodd darllen y darnau oedd wedi'u cywiro yn eu crynswth gan fod cymaint o *orgywiro*. Roedd yn rhaid chwilio am y rhannau perthnasol. Nodwyd enghreifftiau gwahanol i'r rhai a roddwyd yn y cynllun marcio.

Bydd ymgeiswyr yr arholiad yma yn gaffaeliad i weithleoedd. Gobeithio y cânt y cyfle i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac y cânt hefyd ddigon o gyfleoedd i gynnal a datblygu eu sgiliau iaith yn y gweithle.

Argymhellion eraill

Argymhellir bod pob canolfan arholi'n defnyddio'r wefan asesu i gynnal profion ymarfer ymlaen llaw gyda darpar ymgeiswyr, yn agos at ddyddiad y prawf Ysgrifennu ei hun. Bydd hyn yn arbed dryswch ar ddiwrnod yr arholiad, lle bo angen i'r ymgeiswyr roi rhif COD ALLWEDDOL a rhif PIN wrth gofrestru ar y wefan. **Rhaid atgoffa ymgeiswyr i 'arbed' y ddogfen Word *cyn* ei chyflwyno ar y wefan ddiogel. Os cyflwynir dogfen heb ei harbed, (h.y. dogfen wag), ni fydd yr ymgeisydd yn cael marc.**

Ystadegau

Dyma'r cymedr a'r gwyriad safonol ar gyfer y ddwy ran yn 2017:

TSI 2017		
	Cymedr	**Gwyriad Safonol**
Cyflwyniad llafar	74.0	11.9
Ysgrifennu	66.8	15.1
Cyfanswm	140.8	23.8

Fe welir bod y cymedr yn is yn y prawf Ysgrifennu, a'r gwyriad safonol yn fwy nag ar gyfer y Cyflwyniad Llafar – sy'n golygu bod y prawf wedi amlygu'r gwahaniaeth rhwng ymgeiswyr yn fwy, ac mae'r ystod marciau hefyd yn fwy.

Nodir isod faint o ymgeiswyr oedd wedi derbyn y graddau gwahanol dros gyfnod o dair blynedd. (Diolch i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ddarparu'r wybodaeth hon am y blynyddoedd blaenorol). Dylid cofio, fodd bynnag, fod y fanyleb a'r meini prawf asesu wedi eu newid yn 2017. Dyma'r dosbarthiad graddau dros gyfnod o dair blynedd:

TSI 2015 **Cyfanswm ymgeiswyr: 296**		
Gradd	**Nifer**	**Canran**
Rhagoriaeth	76	26%
Clod	113	40%
Llwyddo	70	25%
Methu	27	9%

TSI 2016 **Cyfanswm ymgeiswyr: 239**		
Gradd	**Nifer**	**Canran**
Rhagoriaeth	68	29%
Clod	81	34%
Llwyddo	68	29%
Methu	18	8%

TSI 2017 **Cyfanswm ymgeiswyr: 267**		
Gradd	**Nifer**	**Canran**
Rhagoriaeth	70	26.2%
Clod	87	32.6%
Llwyddo	73	27.3%
Methu	37	13.9%

Mae'r dosbarthiad ychydig yn wahanol, a chanran uwch heb gyrraedd y trothwy llwyddo. Mae canran yr ymgeiswyr sy'n derbyn gradd Rhagoriaeth yn debyg iawn i'r hyn a welwyd yn y gorffennol.

Mae dwy ran y cymhwyster yn ymbatrymu'n wahanol iawn, a llawer mwy'n methu â chyrraedd y trothwy llwyddo yn y Prawf Ysgrifennu. Mae hynny i'w ddisgwyl.

Dyma'r dosbarthiad yn ôl y ddwy ran:

TSI 2017 **Cyflwyniad Llafar**		
Gradd	**Nifer**	**Canran**
Rhagoriaeth	92	34.5%
Clod	100	37.5%
Llwyddo	69	25.8%
Methu	6	2.2%
TSI 2017 **Ysgrifennu**		
Gradd	**Nifer**	**Canran**
Rhagoriaeth	58	21.7%
Clod	76	28.5%
Llwyddo	99	37.1%
Methu	34	12.7%

Cynrychiolir y dosbarthiad marciau yn y graffiau isod, ac mae'r gwahaniaeth yn eglur:

Ffigwr 1



Histogram yn dangos y marciau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

Ffigwr 2



Histogram yn dangos y marciau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

Ffigwr 3



Histogram yn dangos y marciau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf

Yn dilyn ymchwil rhagarweiniol mewn cyfarfod safoni a gynhaliwyd ddiwedd Hydref 2016, sefydlwyd y ffiniau tybiannol ar gyfer pedair gradd y cymhwyster: **Rhagoriaeth, Clod, Llwyddo** a **Methu**. Roedd y cyfarfod safoni cychwynnol yn cynnwys 14 o aseswyr (mewnol ac allanol). Trafodwyd gwaith ymgeiswyr 2016 a 2015,

gan gymhwyso'r meini prawf analytig newydd yn y lle cyntaf, ac yna gan roi gradd amcan ar gyfer y perfformiad. Dadansoddwyd y data gan adran ymchwil CBAC, a gosod ffiniau tybiannol i'r marciau ar sail consensws yr aseswyr. Yn y cyfarfod dyfarnu ym Mehefin 2017, aethpwyd drwy'r camau o sefydlu'r union ffiniau. Trafodwyd gwaith ymgeiswyr a oedd ar bob ffin dybiannol a gwaith ystod o ymgeiswyr ar y naill ochr i'r ffiniau hynny. Roedd rhaid i'r arholwyr ddod i gytundeb fod gwaith ymgeiswyr ar farc penodol yn teilyngu'r radd benodol honno. Aethpwyd drwy'r un camau ar gyfer y ddwy ran – y Cyflwyniadau Llafar a'r Prawf Ysgrifennu. Y penderfyniad oedd bod ffiniau'r ddwy ran yn cyfateb i'w gilydd, a bod ffin **Clod** ychydig yn uwch na'r ffin dybiannol, gychwynnol.

Dyma'r ffiniau a bennwyd i'r graddau yn 2017:

Gradd	**Marc (allan o 200)**
Rhagoriaeth:	160
Clod:	136
Llwyddo:	100

Roedd rhaid cyrraedd ffin **Llwyddo** yn y ddwy ran i ennill y cymhwyster.

Holiaduron Adborth

Anfonwyd holiadur electronig at bob ymgeisydd drwy'r CCC, yn gofyn am adborth am y cymhwyster. Derbyniwyd 69 o ymatebion. Gan gofio bod ychydig yn llai na thraean wedi ymateb, roedd rhai o'r sylwadau'n ddefnyddiol ac yn ddiddorol.

Ydych chi'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg? Ticiwch un ateb.

Ydw, pob rhan o'r cwrs astudio.	29.4%
Ydw, yn rhannol (mwy na 50%).	19.1%
Ydw, yn rhannol (llai na 50%).	42.7%
Nid wyf yn astudio cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.	11.8%

Diddorol nodi bod y canran uchaf yn fyfyrwyr sy'n astudio llai na hanner eu modiwlau trwy'r Gymraeg.

Ydych chi'n derbyn ysgoloriaeth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol?

Ydw	66.7%
Nac ydw	33.3%

Pam safoch chi'r arholiad? Ticiwch bob ateb perthnasol.

Roedd rhaid i mi sefyll yr arholiad.	50.7%
I gael cymhwyster ychwanegol.	76.8%
I wella fy Nghymraeg.	29.0%
I gael swydd yng Nghymru.	21.7%

Gan fod ceisio am y cymhwyster yn amod derbyn ysgoloriaeth, nid oedd yn annisgwyl fod hanner yr ymgeiswyr wedi nodi bod rheidrwydd arnynt i sefyll yr arholiad. Roedd traean yr ymatebwyr heb fod yn derbyn ysgoloriaeth. Mae'n braf nodi hefyd fod y canran uchaf o ddigon yn gweld bod y Dystysgrif Sgiliau Iaith yn gymhwyster ychwanegol defnyddiol.

Gofynnwyd i'r ymgeiswyr am eu barn am y ddwy ran, gan holi'n benodol pa mor berthnasol oeddynt i'w hanghenion.

Cyflwyniad Llafar
Roedd 78.3% o'r ymatebwyr yn meddwl bod y Cyflwyniad Llafar yn berthnasol neu'n berthnasol iawn i'w hanghenion. Dyma ddetholiad o'r sylwadau:

• Roedd yn gyfle da i ymarfer cyflwyno yn y Gymraeg...
• Defnyddiol i wella sgiliau llafar i lefel academaidd.
• Cyfle i ymarfer sgiliau llafar ac i esbonio pwnc o ddiddordeb mewn dull gwahanol.
• Roedd yn ddefnyddiol cael trafod agwedd broffesiynol o fy nghwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.
• Cwbl berthnasol ond doedd 7 munud ddim yn ddigon. 15 munud dw i'n awgrymu – mae hyn yn fwy tebyg i ofynion gweithle hefyd.

Prawf Ysgrifennu
Roedd 61.8% o'r ymatebwyr yn meddwl bod y Prawf Ysgrifennu'n berthnasol neu'n berthnasol iawn i'w hanghenion, a 25% wedi nodi 'rhannol berthnasol'. Dyma ddetholiad o'r sylwadau:

• Credaf y byddai'n fwy perthnasol pe bai mwy o brofion, e.e. un y flwyddyn er mwyn gweld os oes datblygiad?
• Mae profi a allwn i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn syndod o berthnasol i fi gan fy mod eisiau bod yn fargyfreithiwr yn y dyfodol a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Er hyn, teimlais nad oedd un awr a hanner ddim yn ddigon o amser i gyflawni'r prawf Ysgrifennu.
• Roedd yr adran drawsieithu'n ddefnyddiol.
• Roedd cael defnyddio Cysgair a Cysill yn tanseilio pwynt o wella gallu unigolion yn ysgrifenedig. Does dim o hyn yn arholiad Lefel A a TGAU, pam nawr?

Roedd llawer o ymatebwyr yn canmol eu Tiwtoriaid Iaith, ond roedd nifer wedi nodi nad oeddynt wedi cael cyfle i fynd i sesiynau paratoi.

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr nodi unrhyw sylwadau eraill a oedd ganddynt am y Dystysgrif. Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

• Efallai os bydd rhywun yn derbyn ysgoloriaeth dylsen nhw gael eu profi'n flynyddol – i gael mwy o werth ohoni hi. Roedd y broses yn dda i uwcholeuo pa feysydd sgiliau iaith roedd rhaid i mi eu datblygu er mwyn gwella fy ngallu. Fodd bynnag hoffwn i fod wedi cael mwy allan ohoni... i ddatblygu o flwyddyn 1 i'r drydedd flwyddyn, trwy gydol y brifysgol, nid yn unig am un flwyddyn.
• Mae sgiliau teipio'n hollbwysig wrth sefyll yr arholiad.
• Credaf fod gwneud cyflwyniad llafar, arholiad (sydd â thair rhan wahanol) a phrofiad gwaith braidd yn ormod er mwyn profi eich bod yn astudio trwy'r Gymraeg... yn enwedig pan nad yw'n cael effaith ar eich ysgoloriaeth. Dylai'r arholiad fod yn opsiwn er mwyn cael y cymhwyster ychwanegol ar CV.
• Mae'n gymhwyster gwych, ac mae'r rhan cyflwyniad llafar o'r asesiad yn ddefnyddiol iawn, ond nid wyf yn teimlo bod yr arholiad iaith mor ddefnyddiol â hynny i rai cyrsiau penodol.
• Wedi helpu mi magu fwy o hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar ac ar bapur.
• Mae'n hynod o bwysig i bawb i'w gwblhau; mae'n gymhwyster ychwanegol i'w roi ar y CV. Diolch.
• Diolch am adael i mi sefyll yr arholiadau er fy mod i'n astudio tu allan i Gymru!
• Nid oeddwn yn hoff iawn o'r ffaith fod yr arholiad ysgrifenedig ar y cyfrifiadur. Roedd yn anodd gwneud y to ar lythrennau ac roedd fy nghyfrifiadur wedi rhewi yn ystod yr arholiad.